OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 87 (Cy. 17)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *1 Chwefror 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Chwefror 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), (b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**4**).

(**1**) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) ac (c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 2004 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

# RHAN 1

## Enwi, cychwyn a chymhwyso

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Chwefror 2023.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### Cymhwyso

**2.**—(1) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2023, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio—

(a) rheoliadau 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56 a 57 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018);

(b) rheoliadau 33, 34, 35, 36, 58 a 59 (grantiau ar gyfer dibynyddion: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018).

(2) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2023, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio—

(a) rheoliadau 4 a 5 (myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig: ffioedd a dyfarniadau);

(b) rheoliad 6 (aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo: ffioedd a dyfarniadau);

(c) rheoliad 15 (myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig: personau cymhwysol);

(d) rheoliad 16 (aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo: personau cymhwysol);

(e) rheoliadau 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 61, 62, 63, 68, 69, 70 a 71 (myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig: cymhwystra);

(f) rheoliadau 47, 64 a 72 (aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo: cymhwystra);

(g) rheoliad 65 (diwygiad i'r trothwy rhandaliadau blynyddol: Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018);

(h) rheoliad 66 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018);

(i) rheoliadau 73 a 74 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**5**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### PENNOD 2

### Myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig a diwygiadau cysylltiedig

**4.** Ym mhob un o reoliadau 4(1B), 5(4), 6(5), 7(5) ac 8(4) yn lle "9B a 9BA" rhodder "9B, 9BA a 9E".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**5.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn y diffiniad o "family member" yn y testun Saesneg, yn lle "aelod o deulu" rhodder "aelod o'r teulu";

(ii) yn y diffiniad o "aelod o'r teulu", ym mharagraff (d), yn lle "paragraffau 9, 9B, 9C, 9D a 9E" rhodder "paragraffau 9, 9B, 9E neu at ddibenion paragraffau 9C a 9D mewn perthynas â pherson sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(b) ym mharagraff 9C(1)(a)—

(i) yn is-baragraff (i), yn lle "yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "yn berson sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (ii), ar y diwedd mewnosoder ", neu a fyddai'n berson o'r fath pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### PENNOD 3

### Aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo

**6.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 9Ch(1)(a) yn lle "sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig".

(**5**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2021/1365 (Cy. 360) ac O.S. 2022/764 (Cy. 166).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**7.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**6**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### PENNOD 2

### Hepgor darpariaethau diangen

**8.** Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (2)(b)(i), hepgorer "2A,", "9A," a "9BA, 9C, 9D,";

(b) ym mharagraff (2)(b)(ii), hepgorer "9,";

(c) ym mharagraff (2A)(a), hepgorer "9,";

(d) ym mharagraff (2B), yn lle "8A, 9B, 9BA a 9D" rhodder "8A a 9B";

(e) ym mharagraff (10E)(a)—

(i) ym mharagraff (i) yn lle "(a)(iii), (iv) neu (v)" rhodder "(1)(a)(iii) neu (iv)";

(ii) ym mharagraff (ii) yn lle "3(1)(a)(iii) neu (iv)" rhodder "3(1)(a)(iv)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**9.** Yn rheoliad 15—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae" rhodder "Mae";

(b) hepgorer paragraff (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**10.** Yn rheoliad 17—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae" rhodder "Mae";

(**6**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/1294 (Cy. 328) ac O.S. 2022/764 (Cy. 166).

(b) hepgorer paragraff (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**11.** Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae" rhodder "Mae";

(b) hepgorer paragraff (3).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**12.** Yn rheoliad 22—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae" rhodder "Mae";

(b) hepgorer paragraff (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**13.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "aelod o deulu"—

(i) ym mharagraffau (c) a (d), hepgorer "neu, at ddibenion paragraff 9A, mewn perthynas â pherson perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38 pe bai'r person hwnnw yn wladolyn o'r UE neu'n wladolyn o'r UE yn unig";

(ii) ym mharagraff (e) yn lle "paragraffau 9, 9B, 9C a 9D" rhodder "paragraff 9B";

(b) hepgorer paragraffau 2A, 3(1)(a)(iii), 9, 9A, 9BA, 9C a 9D.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 4

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**14.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**7**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

(**7**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 2

Myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig a diwygiadau cysylltiedig

**15.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), ym mharagraff (e) o'r diffiniad o "aelod o deulu", yn lle "paragraffau 9, 9B, 9C, 9D a 9E" rhodder "paragraffau 9, 9B, 9E ac at ddibenion paragraffau 9C a 9D mewn perthynas â phersonau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(b) ym mharagraff 9C(1)(a)—

(i) yn is-baragraff (i), yn lle "yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "yn berson sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (ii), ar y diwedd mewnosoder ", neu a fyddai'n berson o'r fath pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 3

Aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo

**16.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 9D(1)(a), yn lle "sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Rhl. 16 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 5

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

PENNOD 1

Cyflwyniad

**17.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**8**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 17 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

(**8**) O.S. 2017/47 (Cy. 21); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28).

PENNOD 2

Cymorth ariannol – codiadau

**18.** Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,295" rhodder "£4,215";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£4,705" rhodder "£4,785";

(c) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£2,220" rhodder "£2,175";

(d) ym mharagraff (4)(b), yn lle "£2,280" rhodder "£2,325".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 18 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**19.** Yn rheoliad 19—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,705" rhodder "£4,785";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£2,280" rhodder "£2,325".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Rhl. 19 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**20.** Yn rheoliad 24(3)(a), yn lle "£32,546" rhodder "£33,146".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Rhl. 20 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**21.** Yn rheoliad 26(3)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£3,262" rhodder "£3,322";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£3,262" rhodder "£3,322".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Rhl. 21 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**22.** Yn rheoliad 27—

(a) ym mharagraff (7)(a), yn lle "£184" rhodder "£187";

(b) ym mharagraff (7)(b), yn lle "£315" rhodder "£321";

(c) ym mharagraff (9)(a), yn lle "£141" rhodder "£144".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Rhl. 22 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**23.** Yn rheoliad 28(2), yn lle "£1,862" rhodder "£1,896".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Rhl. 23 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**24.** Yn rheoliad 43—

(a) ym mharagraff (2)(i), yn lle "£6,163" rhodder "£6,277";

(b) ym mharagraff (2)(ii), yn lle "£11,152" rhodder "£11,357";

(c) ym mharagraff (2)(iii), yn lle "£9,492" rhodder "£9,667";

(d) ym mharagraff (2)(iv), yn lle "£9,492" rhodder "£9,667";

(e) ym mharagraff (2)(v), yn lle "£7,961" rhodder "£8,108";

(f) ym mharagraff (3)(i), yn lle "£5,580" rhodder "£5,683";

(g) ym mharagraff (3)(ii), yn lle "£10,155" rhodder "£10,342";

(h) ym mharagraff (3)(iii), yn lle "£8,256" rhodder "£8,408";

(i) ym mharagraff (3)(iv), yn lle "£8,256" rhodder "£8,408";

(j) ym mharagraff (3)(v), yn lle "£7,375" rhodder "£7,511".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Rhl. 24 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**25.** Yn rheoliad 45—

(a) ym mharagraff (1)(a)(i), yn lle "£2,926" rhodder "£2,980";

(b) ym mharagraff (1)(a)(ii), yn lle "£5,484" rhodder "£5,585";

(c) ym mharagraff (1)(a)(iii), yn lle "£4,666" rhodder "£4,752";

(d) ym mharagraff (1)(a)(iv), yn lle "£4,666" rhodder "£4,752";

(e) ym mharagraff (1)(a)(v), yn lle "£3,901" rhodder "£3,973";

(f) ym mharagraff (1)(b)(i), yn lle "£2,926" rhodder "£2,980";

(g) ym mharagraff (1)(b)(ii), yn lle "£5,484" rhodder "£5,585";

(h) ym mharagraff (1)(b)(iii), yn lle "£4,666" rhodder "£4,752";

(i) ym mharagraff (1)(b)(iv), yn lle "£4,666" rhodder "£4,752";

(j) ym mharagraff (1)(b)(v), yn lle "£3,901" rhodder "£3,973";

(k) ym mharagraff (1)(c)(i), yn lle "£4,622" rhodder "£4,708";

(l) ym mharagraff (1)(c)(ii), yn lle "£8,364" rhodder "£8,518";

(m) ym mharagraff (1)(c)(iii), yn lle "£7,119" rhodder "£7,250";

(n) ym mharagraff (1)(c)(iv), yn lle "£7,119" rhodder "£7,250";

(o) ym mharagraff (1)(c)(v), yn lle "£5,971" rhodder "£6,081";

(p) ym mharagraff (2)(a)(i), yn lle "£2,224" rhodder "£2,265";

(q) ym mharagraff (2)(a)(ii), yn lle "£4,194" rhodder "£4,271";

(r) ym mharagraff (2)(a)(iii), yn lle "£3,040" rhodder "£3,096";

(s) ym mharagraff (2)(a)(iv), yn lle "£3,040" rhodder "£3,096";

(t) ym mharagraff (2)(a)(v), yn lle "£3,040" rhodder "£3,096";

(u) ym mharagraff (2)(b)(i), yn lle "£2,224" rhodder "£2,265";
(v) ym mharagraff (2)(b)(ii), yn lle "£4,194" rhodder "£4,271";
(w) ym mharagraff (2)(b)(iii), yn lle "£3,411" rhodder "£3,474";
(x) ym mharagraff (2)(b)(iv), yn lle "£3,411" rhodder "£3,474";
(y) ym mharagraff (2)(b)(v), yn lle "£3,040" rhodder "£3,096";
(z) ym mharagraff (2)(c)(i), yn lle "£4,185" rhodder "£4,262";
(aa) ym mharagraff (2)(c)(ii), yn lle "£7,616" rhodder "£7,757";
(bb) ym mharagraff (2)(c)(iii), yn lle "£6,192" rhodder "£6,306";
(cc) ym mharagraff (2)(c)(iv), yn lle "£6,192" rhodder "£6,306";
(dd) ym mharagraff (2)(c)(v), yn lle "£5,531" rhodder "£5,633".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I25** Rhl. 25 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**26.** Yn rheoliad 50—
(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "£91" rhodder "£93";
(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£176" rhodder "£179";
(c) ym mharagraff (1)(c), yn lle "£192" rhodder "£196";
(d) ym mharagraff (1)(d), yn lle "£192" rhodder "£196";
(e) ym mharagraff (1)(e), yn lle "£138" rhodder "£141".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I26** Rhl. 26 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**27.** Yn rheoliad 56—
(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,622" rhodder "£4,708";
(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£8,364" rhodder "£8,518";
(c) ym mharagraff (3)(c), yn lle "£7,119" rhodder "£7,250";
(d) ym mharagraff (3)(d), yn lle "£7,119" rhodder "£7,250";
(e) ym mharagraff (3)(e), yn lle "£5,971" rhodder "£6,081";
(f) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£4,185" rhodder "£4,262";
(g) ym mharagraff (4)(b), yn lle "£7,616" rhodder "£7,757";
(h) ym mharagraff (4)(c), yn lle "£6,192" rhodder "£6,306";
(i) ym mharagraff (4)(d), yn lle "£6,192" rhodder "£6,306";
(j) ym mharagraff (4)(e), yn lle "£5,531" rhodder "£5,633".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I27** Rhl. 27 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**28.** Yn rheoliad 88(3)(a), yn lle "£32,546" rhodder "£33,146".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Rhl. 28 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**29.** Yn rheoliad 91—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£3,262" rhodder "£3,322";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£3,262" rhodder "£3,322".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Rhl. 29 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**30.** Yn rheoliad 92—

(a) ym mharagraff (6)(a), yn lle "£184" rhodder "£187";

(b) ym mharagraff (6)(b), yn lle "£315" rhodder "£321";

(c) ym mharagraff (8)(a), yn lle "£141" rhodder "£144".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Rhl. 30 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**31.** Yn rheoliad 93(2), yn lle "£1,862" rhodder "£1,896".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Rhl. 31 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**32.** Yn rheoliad 117(2)(a), yn lle "£32,546" rhodder "£33,146".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Rhl. 32 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 3

### Grantiau ar gyfer dibynyddion

**33.** Yn rheoliad 29(2), yn lle—

(a) "£1,159" rhodder "£1,180";

(b) "£3,473" rhodder "£3,537";

(c) "£4,632" rhodder "£4,717";

(d) "£5,797" rhodder "£5,904".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Rhl. 33 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**34.** Yn rheoliad 89(3), yn lle "50" rhodder "25".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Rhl. 34 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**35.** Yn rheoliad 94(2), yn lle—

(a) "£1,159" rhodder "£1,180";

(b) "£3,473" rhodder "£3,537";

(c) "£4,632" rhodder "£4,717";

(d) "£5,797" rhodder "£5,904".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Rhl. 35 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**36.** Yn rheoliad 98—

(a) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Yn achos grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed, pan fo'r dwysedd astudio—

(a) yn 25 y cant neu'n fwy ond yn llai na 30 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 25 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(b) yn 30 y cant neu'n fwy ond yn llai na 40 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 30 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(c) yn 40 y cant neu'n fwy ond yn llai na 50 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 40 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(d) yn 50 y cant neu'n fwy ond yn llai na 60 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 50 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(e) yn 60 y cant neu'n fwy ond yn llai na 75 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 60 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(f) yn 75 y cant neu'n fwy, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 75 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn.";

(b) yn lle paragraff (5) rhodder—

"(5) Yn achos grant rhan-amser ar gyfer gofal plant, pan fo'r dwysedd astudio—

(a) yn 25 y cant neu'n fwy ond yn llai na 30 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 25 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(b) yn 30 y cant neu'n fwy ond yn llai na 40 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 30 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(c) yn 40 y cant neu'n fwy ond yn llai na 50 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 40 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(d) yn 50 y cant neu'n fwy ond yn llai na 60 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 50 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(e) yn 60 y cant neu'n fwy ond yn llai na 75 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 60 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(f) yn 75 y cant neu'n fwy, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 75 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn.";

(c) yn lle paragraff (7), rhodder—

"(7) Yn achos lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni, pan fo'r dwysedd astudio—

(a) yn 25 y cant neu'n fwy ond yn llai na 30 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 25 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(b) yn 30 y cant neu'n fwy ond yn llai na 40 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 30 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(c) yn 40 y cant neu'n fwy ond yn llai na 50 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 40 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(d) yn 50 y cant neu'n fwy ond yn llai na 60 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 50 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(e) yn 60 y cant neu'n fwy ond yn llai na 75 y cant, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 60 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn;

(f) yn 75 y cant neu'n fwy, mae'r swm sy'n daladwy yn hafal i 75 y cant o'r swm sy'n deillio o hyn.";

(d) ym mharagraff (9), yn lle "50" rhodder "25".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Rhl. 36 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 6

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**37.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**9**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Rhl. 37 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### PENNOD 2

### Myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig a diwygiadau cysylltiedig

**38.** Yn rheoliad 9(1)(a)(i), ar ôl "6BA," mewnosoder "6BB,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Rhl. 38 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**39.** Yn rheoliad 44(1), yn Eithriad 2, yn lle'r geiriau o "baragraffau 1(3)" hyd at y diwedd rhodder "baragraffau 1(2)(d)(ii), 1(3), 4A(1)(b)(ii), 4A(2)(b)(ii), 6(1), 6A(1), 6A(2)(d)(ii), 6BA, 6BB, 6C, 6D, 7A(c)(ii) neu 8A(1)(d)(ii)."

(**9**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/813 (Cy. 164); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2022/49 (Cy. 18) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Rhl. 39 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**40.** Yn rheoliad 54, yn Eithriad 2, yn lle'r geiriau o "baragraffau 1(3)" hyd at y diwedd rhodder "baragraffau 1(2)(d)(ii), 1(3), 4A(1)(b)(ii), 4A(2)(b)(ii), 6(1), 6A(1), 6A(2)(d)(ii), 6BA, 6BB, 6C, 6D, 7A(c)(ii) neu 8A(1)(d)(ii)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I40** Rhl. 40 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**41.** Yn rheoliad 62(2), yn Eithriad 2, yn lle'r geiriau o "baragraffau 1(3)" hyd at y diwedd rhodder "baragraffau 1(2)(d)(ii), 1(3), 4A(1)(b)(ii), 4A(2)(b)(ii), 6(1), 6A(1), 6A(2)(d)(ii), 6BA, 6BB, 6C, 6D, 7A(c)(ii) neu 8A(1)(d)(ii)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** Rhl. 41 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**42.** Yn rheoliad 69(2), yn Eithriad 2, yn lle'r geiriau o "baragraffau 1(3)" hyd at y diwedd rhodder "baragraffau 1(2)(d)(ii), 1(3), 4A(1)(b)(ii), 4A(2)(b)(ii), 6(1), 6A(1), 6A(2)(d)(ii), 6BA, 6BB, 6C, 6D, 7A(c)(ii) neu 8A(1)(d)(ii)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I42** Rhl. 42 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**43.** Yn rheoliad 80(2)(b)(iii), yn lle "neu 6D(a)" rhodder ", 6D(1)(a) neu 6D(2)(a)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** Rhl. 43 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**44.** Yn Atodlen 2—

(a) yn lle paragraff 1(2)(d) rhodder—

"(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn y diriogaeth sy'n ffurfio—

(i) y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu

(ii) y tiriogaethau tramor.";

(b) ym mharagraff 4A—

(i) yn lle is-baragraff (1)(b) rhodder—

"(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs naill ai—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu

(ii) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor, pan oedd o leiaf ran o'r preswylio fel arfer hwnnw yn y tiriogaethau tramor."

(ii) yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

"(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs naill ai—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu

(ii) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor pan oedd o leiaf ran o'r preswylio fel arfer hwnnw yn y tiriogaethau tramor, ac";

(c) ym mharagraff 6A(1)(c)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(d) ym mharagraff 6A(1)(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(e) ym mharagraff 6A(2)(d), yn lle'r geiriau o "preswylio fel arfer" hyd at y diwedd rhodder—

"preswylio fel arfer n union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn y diriogaeth sy'n ffurfio—

(i) y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu

(ii) y tiriogaethau tramor.";

(f) ar ôl paragraff 6BA mewnosoder—

"**Categori 6BB – Personau o'r tiriogaethau tramor Prydeinig sydd wedi setlo**

**6BB.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sydd—

(i) yn ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru, neu

(ii) yn ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am o leiaf ran o'r cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs presennol, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol, ac

(f) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (f) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn unol â pharagraff 9(2).";

(g) yn lle paragraff 6D rhodder—

"**6D.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig a chanddo statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar, neu

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar,

(b) sy'n ymgymryd—

(i) â chwrs dynodedig yng Nghymru, neu

(ii) â chwrs ôl-radd dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn UE a chanddo hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE, neu

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn UE, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE,

(b) sydd—

(i) yn ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru, neu

(ii) yn ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (c) o'r is-baragraffau hynny yn unol â pharagraff 9(2).";

(h) yn lle paragraff 7A(c) rhodder—

"(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs naill ai—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir, neu

(ii) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor pan oedd o leiaf ran o'r preswylio fel arfer hwnnw yn y tiriogaethau tramor, a";

(i) ym mharagraff 8A(1), yn lle paragraff (d) rhodder—

"(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs naill ai—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci, neu

(ii) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor pan oedd o leiaf ran o'r preswylio fel arfer hwnnw yn y tiriogaethau tramor.";

(j) ym mharagraff 9—

(i) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("P") i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer mewn ardal pe bai P wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) P,

(b) priod neu bartner sifil P, neu

(c) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn P neu briod neu bartner sifil plentyn P,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw.";

(ii) yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd tiriogaeth dramor Brydeinig benodedig, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon fel aelodau o luoedd o'r fath;

(d) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath;

(e) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath;

(f) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd tiriogaeth dramor yr UE, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor.";

(k) ym mharagraff 11(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "tiriogaethau tramor" ("*overseas territories*") yw Anguilla, Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten), Aruba, Bermuda, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De, Gibraltar, Mayotte, Montserrat, Polynesia Ffrengig, St Barthélemy, St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension), St Pierre a Miquelon, Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol, Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc, Wallis a Futuna, Yr Ynys Las, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Ffaro, Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, ac Ynysoedd Turks a Caicos;";

"ystyr "tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig" ("*specified British overseas territories*") yw Anguilla, Bermuda, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De, Gibraltar, Montserrat, St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension), Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, ac Ynysoedd Turks a Caicos;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I44** Rhl. 44 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**45.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 4(1)(a)(i)—

(a) yn lle "6A(2)" rhodder "6A(2)(d)(i)";

(b) hepgorer "6BA,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Rhl. 45 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**46.** Yn Atodlen 7, yn Nhabl 16, yn y lle priodol yn y tabl mewnosoder y cofnodion a ganlyn—

| | |
|---|---|
| ""tiriogaethau tramor" | Atodlen 2, paragraff 11(1)" |
| ""tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig" | Atodlen 2, paragraff 11(1)" |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** Rhl. 46 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 3

### Aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo

**47.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6C(a), yn lle "sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** Rhl. 47 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 4

### Cymorth ariannol – codiadau

**48.** Yn rheoliad 55, yn Nhabl 7—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | | |
|---|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | Categori 1 | Byw gartref | £8,950 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £13,635 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £10,720 |
| | Categori 2 | Byw gartref | £4,475 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £6,815 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £5,360" |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** Rhl. 48 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**49.** Yn rheoliad 56—

(a) yn Nhabl 8—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | Byw gartref | £9,950 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £14,635 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £11,720" |

(b) yn Nhabl 8A—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | Byw gartref | £4,475 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £6,815 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £5,360" |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I49** Rhl. 49 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**50.** Yn rheoliad 57(7), yn Nhabl 9—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | Byw gartref | £93 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £179 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £141" |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I50** Rhl. 50 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**51.** Yn rheoliad 58(2), yn Nhabl 10—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | £7,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio" |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I51** Rhl. 51 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**52.** Yn rheoliad 58A(2), yn Nhabl 10A—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | £8,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio" |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I52** Rhl. 52 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**53.** Yn rheoliad 63(2), yn lle "£32,546" rhodder "£33,146".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I53** Rhl. 53 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**54.** Yn rheoliad 72(2), yn Nhabl 11—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | £3,322" |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I54** Rhl. 54 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**55.** Yn rheoliad 74, yn Nhabl 12—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | £1,896" |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I55** Rhl. 55 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**56.** Yn rheoliad 76(2)—

(a) yn Nhabl 13—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2023";

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023 | Un plentyn dibynnol | £187 |

| | |
|---|---|
| Mwy nag un plentyn dibynnol | £321” |

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle “£141” rhodder “£144”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I56** Rhl. 56 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**57.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 20(2), yn lle “£32,546” rhodder “£33,146”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I57** Rhl. 57 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 5

Grantiau ar gyfer dibynyddion

**58.** Yn rheoliad 69(1)(c), yn lle “50%” rhodder “25%”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I58** Rhl. 58 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**59.** Yn rheoliad 77—

(a) ym mharagraff (1), yn lle—

(i) “£6,159” rhodder “£6,272”;

(ii) “£8,473” rhodder “£8,629”;

(iii) “£9,632” rhodder “£9,809”;

(iv) “£10,797” rhodder “£10,996”;

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Os yw cwrs presennol y myfyriwr cymwys yn gwrs rhan-amser, swm y grant ar gyfer dibynyddion sy’n daladwy yw’r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (a)(ii) neu (d)(ii) o Gam 4 o baragraff (1) wedi ei luosi ag—

(a) 25%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 25% o leiaf ond yn llai na 30%;

(b) 30%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 30% o leiaf ond yn llai na 40%;

(c) 40%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 40% o leiaf ond yn llai na 50%;

(d) 50%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 50% o leiaf ond yn llai na 60%;

(e) 60%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 60% o leiaf ond yn llai na 75%;

(f) 75%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 75% neu’n fwy.”

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I59** Rhl. 59 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 7

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**60.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**10**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I60** Rhl. 60 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### PENNOD 2

### Myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig a diwygiadau cysylltiedig

**61.** Yn rheoliad 3(2)(a), ar ôl "10BA," mewnosoder "10BB,".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I61** Rhl. 61 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**62.** Yn rheoliad 8(d), yn lle "neu 10D(1)(a)" rhodder ", 10D(1)(a) neu 10D(2)(a)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I62** Rhl. 62 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**63.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "tiriogaethau tramor" ("*overseas territories*") yw Anguilla; Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten); Aruba; Bermuda; De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De; Gibraltar; Mayotte; Montserrat; Polynesia Ffrengig; St Barthélemy; St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension); St Pierre a Miquelon; Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc; Wallis a Futuna; Yr Ynys Las; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Ynysoedd Ffaro; Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; Ynysoedd Prydeinig y Wyryf; ac Ynysoedd Turks a Caicos;";

(**10**) O.S. 2018/656 (Cy. 124); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2021/1365 (Cy. 360) ac O.S. 2022/764 (Cy. 166).

"ystyr "tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig" ("*specified British overseas territories*") yw Anguilla; Bermuda; De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De; Gibraltar; Montserrat; St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension); Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; Ynysoedd Prydeinig y Wyryf; ac Ynysoedd Turks a Caicos;".

(b) yn lle paragraff 1(4) rhodder—

"(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("A") i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer mewn ardal pe bai A wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) A;

(b) priod neu bartner sifil A; neu

(c) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw.";

(c) yn lle paragraff 1(5) rhodder—

"(5) At ddibenion is-baragraff (4), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd tiriogaeth dramor Brydeinig benodedig, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon fel aelodau o luoedd o'r fath;

(d) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath;

(e) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath; ac

(f) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd tiriogaeth dramor yr UE, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor.";

(d) ym mharagraff 3(1)(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(e) ym mharagraff 7A(1)(c)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(f) ym mharagraff 8A(1)(b)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(g) ym mharagraff 10A(1)—

(i) ym mharagraff (c)—

(aa) hepgorer "Gibraltar,";

(bb) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(ii) ym mharagraff (d)—

(aa) hepgorer "Gibraltar,";

(bb) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(h) ym mharagraff 10A(2)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(i) ar ôl paragraff 10BA mewnosoder—

"**10BB.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am o leiaf ran o'r cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig; ac

(f) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (f) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn unol â pharagraff 1(4).";

(j) yn lle paragraff 10D rhodder—

"**10D.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig a chanddo statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar; neu

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar;

(b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn UE a chanddo hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE; neu

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn UE, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE;

(b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Awrdal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (c) o'r is-baragraffau hynny yn unol â pharagraff 1(4)."

(k) ym mharagraff 11A(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(l) ym mharagraff 12A—

(i) yn is-baragraff (c)—

(aa) hepgorer "Gibraltar,";

(bb) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(ii) yn is-baragraff (d)—

(aa) hepgorer "Gibraltar,";

(bb) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(m) ym mharagraff 13A(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a Thwrci" rhodder ", Twrci a'r tiriogaethau tramor".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I63** Rhl. 63 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 3

### Aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo

**64.** Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1(1), ym mharagraff (e) o'r diffiniad o "aelod o deulu", yn lle "paragraffau 10, 10B, 10C a 10D" rhodder "paragraffau 10, 10B a 10D ac at ddibenion paragraff 10C mewn perthynas â pherson sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(b) ym mharagraff 10C(1)(a), yn lle "sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I64** Rhl. 64 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 4

### Diwygiad i'r trothwy blynyddol

**65.** Yn rheoliad 14(5)(a), yn lle "£10,609" rhodder "hanner cant y cant o'r swm a bennir yn rheoliad 13(1)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I65** Rhl. 65 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

## CHAPTER 5

### Cymorth ariannol – codiadau

**66.** Yn rheoliad 13—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£27,880" rhodder "£28,395";

(b) ym mharagraff (2)(b), yn lle "£27,880" rhodder "£28,395".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I66** Rhl. 66 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 8

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**67.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**11**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I67** Rhl. 67 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### PENNOD 2

### Myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig a diwygiadau cysylltiedig

**68.** Yn rheoliad 9(1)(a)(i), ar ôl "8BA," mewnosoder "8BB,".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I68** Rhl. 68 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**69.** Yn rheoliad 16(1)(b)(iii), yn lle "neu 8D(a)" rhodder ", 8D(1)(a) neu 8D(2)(a)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I69** Rhl. 69 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**70.** Yn Atodlen 2 —

(a) ym mharagraff 1(2)(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(b) ym mharagraff 6A(1)(b)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(c) ym mharagraff 6A(2)(b)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(d) ym mharagraff 8A(1)(c)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(e) ym mharagraff 8A(1)(d)—

(**11**) O.S. 2019/895 (Cy. 161); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2021/1365 (Cy. 360) ac O.S. 2022/764 (Cy. 166).

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(f) ym mharagraff 8A(2)(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(g) ar ôl paragraff 8BA mewnosoder—

"**8BB.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am o leiaf ran o'r cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(e) na symudodd i Gymru o'r Ynysoedd at ddiben ymgymryd â'r cwrs dynodedig, neu gwrs yr ymgymerodd y person ag ef, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig, ac

(f) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (f) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn unol â pharagraff 11(2).";

(h) yn lle paragraff 8D rhodder—

"**8D.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig a chanddo statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar, neu

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar,

(b) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn UE a chanddo hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE, neu

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn UE, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE,

(b) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (c) o'r is-baragraffau hynny yn unol â pharagraff 11(2).";

(i) ym mharagraff 9A(c)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(j) ym mharagraff 9A(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a'r Swistir" rhodder ", y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(k) ym mharagraff 10A(1)(d)—

(i) hepgorer "Gibraltar,";

(ii) yn lle "a Thwrci" rhodder ", Twrci a'r tiriogaethau tramor";

(l) ym mharagraff 11—

(i) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("A") i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer mewn ardal pe bai A wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) A,

(b) priod neu bartner sifil A, neu

(c) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw.";

(ii) yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i'r ardal o dan sylw yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd tiriogaeth dramor Brydeinig benodedig, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r

diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig a’r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig fel aelodau o luoedd o’r fath;

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon fel aelodau o luoedd o’r fath;

(d) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu’r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir fel aelodau o luoedd o’r fath;

(e) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o’r fath;

(f) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd tiriogaeth dramor yr UE, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, yr AEE, y Swistir a’r tiriogaethau tramor.”;

(m) ym mharagraff 13(1), yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “tiriogaethau tramor” (“*overseas territories*”) yw Anguilla, Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten), Aruba, Bermuda, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De, Gibraltar, Mayotte, Montserrat, Polynesia Ffrengig, St Barthélemy, St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension), St Pierre a Miquelon, Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol, Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc, Wallis a Futuna, Yr Ynys Las, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Ffaro, Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, ac Ynysoedd Turks a Caicos;”;

“ystyr “tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig” (“*specified British overseas territories*”) yw Anguilla, Bermuda, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De, Gibraltar, Montserrat, St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Tristan da Cunha ac Ynys Ascension), Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, ac Ynysoedd Turks a Caicos;”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I70** Rhl. 70 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**71.** Yn Atodlen 4, yn Nhabl 3, yn y lle priodol yn y tabl mewnosoder y cofnodion a ganlyn—

| | |
|---|---|
| ““tiriogaethau tramor” | Atodlen 2, paragraff 13(1)” |

| | |
|---|---|
| ““tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig” | Atodlen 2, paragraff 13(1)” |

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I71** Rhl. 71 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 3

Aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo

**72.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 8C(a), yn lle "sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I72** Rhl. 72 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

CHAPTER 4

Cymorth ariannol – codiadau

**73.** Yn rheoliad 31—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "£17,430" rhodder "£17,770";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£17,430" rhodder "£17,770".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I73** Rhl. 73 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**74.** Yn rheoliad 36—

(a) ym mharagraff (8), yn lle "£17,430" rhodder "£17,770";

(b) ym mharagraff (10), yn lle "£17,430" rhodder "£17,770".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I74** Rhl. 74 mewn grym ar 22.2.2023, gweler **rhl. 1(2)**

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

30 Ionawr 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") (gweler Rhan 2 o'r Rheoliadau),

(b) Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") (gweler Rhan 3 o'r Rheoliadau),

(c) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") (gweler Rhan 4 o'r Rheoliadau),

(d) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (gweler Rhan 5 o'r Rheoliadau),

(e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") (gweler Rhan 6 o'r Rheoliadau),

(f) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol") (gweler Rhan 7 o'r Rheoliadau), ac

(g) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") (gweler Rhan 8 o'r Rheoliadau).

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cychwyn a chymhwyso'r Rheoliadau hyn. Mae rheoliad 2 yn nodi'r rheoliadau hynny sydd i fod yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2023 (*gweler* paragraff 1) a'r rheoliadau hynny sydd i fod yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2023 (*gweler* paragraff 2).

Mae Rhannau 2 a 4 yn diwygio Rheoliadau 2007 a Rheoliadau 2015, yn y drefn honno. Mae Pennod 2 o'r Rhannau hynny yn gwneud diwygiadau fel bod statws ffioedd cartref a statws person cymhwysol yn gymwys i fyfyrwyr sydd o diriogaethau tramor Prydeinig ("TTPau") penodedig ac sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig. Mae Pennod 3 o'r Rhannau hynny yn gwneud diwygiadau fel bod aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn cymhwyso i gael statws ffioedd cartref a statws person cymhwysol.

Mae Pennod 2 o Ran 3 yn hepgor darpariaethau diangen yn Rheoliadau 2014.

Yn Rhan 6, Rhan 7 a Rhan 8 fel ei gilydd, mae Pennod 2 yn darparu i bersonau sydd â statws preswylydd sefydlog wrth gyrraedd y Deyrnas Unedig, ac a ddaeth i'r Deyrnas Unedig o TTPau penodedig, gymhwyso i gael cymorth penodol i fyfyrwyr (mae israddedigion yn gymwys i gael cymorth at ffioedd dysgu ond nid ydynt yn gymwys i gael grantiau a benthyciadau at gostau byw). Er mwyn cymhwyso i gael cymorth, bydd angen i bersonau sy'n preswylio yn y TTPau fodloni'r gofyniad i breswylio fel arfer am dair blynedd yn y Deyrnas Unedig, yn Nhiriogaethau Dibynnol y Goron neu mewn TTPau penodedig. Gwneir darpariaeth gyfatebol hefyd ar gyfer y rheini a gwmpesir gan y cytundeb ymadael â'r UE, y Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd sydd wedi treulio rhan o'u cyfnod preswylio naill ai yn y TTPau neu yn nhiriogaethau tramor yr UE.

Yn Rhan 6, Rhan 7 a Rhan 8 fel ei gilydd, mae Pennod 3 yn gwneud diwygiadau fel bod aelodau o deuluoedd pob person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sy'n cychwyn ar gyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2023 yn cymhwyso i gael cymorth i fyfyrwyr. Rhaid i'r categori hwn o berson fod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn dechrau

ei gwrs er mwyn cymhwyso i gael cymorth. Yn flaenorol, dim ond aelodau o deuluoedd gwladolion y Deyrnas Unedig a oedd yn gymwys i gael cymorth.

Mae Pennod 2 o Ran 5, Pennod 4 o Ran 6, Pennod 5 o Ran 7 a Phennod 4 o Ran 8 yn cynyddu symiau amrywiol a bennir yn Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, yn y drefn honno.

Mae Pennod 3 o Ran 5 a Phennod 5 o Ran 6 yn diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018, yn y drefn honno, i ganiatáu i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwysedd rhwng 25% a 50% gymhwyso i gael grantiau ar gyfer dibynyddion ac i gynyddu swm yr incwm a ddiystyrir wrth gyfrifo hawlogaeth i gael grantiau ar gyfer dibynyddion.

Mae Pennod 4 o Ran 7 yn diwygio'r Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol drwy gynyddu uchafswm y cymorth y caiff Gweinidogion Cymru ei dalu fel rhandaliad o gymorth sy'n ddyledus i fyfyriwr mewn cysylltiad ag unrhyw un flwyddyn academaidd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.